| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR LLAWN |
| **DYDDIAD** | 1 Mawrth 2012 |
| **TEITL** | Cynlluniau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain |
| **PWRPAS** | Sicrhau cefnogaeth i symud ymlaen â chynlluniau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a chyhoeddi Rhybuddion Statudol i'r perwyl hyn |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi'r cynnig a'r argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts – Arweinydd Portffolio Addysg |

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron cyfarfod Bwrdd 14 Chwefror 2012, cyfeiriwyd y mater gerbron y Cyngor Llawn. Atodir yr adroddiad fel y cyflwynwyd ef i'r Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | BWRDD Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 14 Chwefror 2012 |
| **TEITL** | Cynlluniau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain |
| **PWRPAS** | Sicrhau cefnogaeth y Bwrdd i symud ymlaen â chynlluniau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a chyhoeddi Rhybuddion Statudol i'r perwyl hyn |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi'r cynnig a'r argymhelliad |
| **AWDUR** | Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts – Arweinydd Portffolio Addysg |

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar sefyllfa rhaglen gyllidol Llywodraeth Cymru – Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, a cheisio cefnogaeth y Bwrdd i symud ymlaen â'r rhaglen fuddsoddi.

1.2 Bydd Aelodau'r Bwrdd yn cofio i Lywodraeth Cymru wahodd Awdurdodau Lleol i gyflwyno Amlinelliad o Raglen Strategol – Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ym mis Rhagfyr 2010. Yn unol â phenderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod 14/12/2010, cyflwynodd y Cyngor ei gais yr adeg hynny. Adroddwyd i Fwrdd y Cyngor 26/7/2011 am yr oediad a fu o gyfeiriad Llywodraeth Cymru yn ei benderfyniad ar y ceisiadau hyn, a phenderfynwyd neilltuo arian y Cyngor i fwrw ymlaen ar gyfer rhai cynlluniau penodol.

1.3 Yn ystod mis Hydref 2011 derbyniwyd yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r camau nesaf gyda Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Prif negeseuon o'r arweiniad hynny oedd y pwyntiau canlynol:

- Bydd Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn casglu'r holl gronfeydd ar gyfer adnoddau cyfalaf o fewn y sector addysg at ei gilydd mewn un cronfa fuddsoddi.

- Ymestynnir y cylch cyllido cyntaf am gyfnod o 6/ 7 mlynedd.

- Nodwyd y byddai disgwyl i Awdurdodau gyfrannu 50% tuag at becynnau buddsoddi, a bod 50% o gyfraniad gan Lywodraeth Cymru. Golygai hyn y bydd Awdurdodau a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yr un swm fel rhan o'r rhaglen.

1.4 Mewn ymateb i'r arweiniad hwn, paratowyd cais Cyngor Gwynedd yn unol â phenderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod 22/11/2011.

1.5 Cafwyd datganiad gan Weinidog y Llywodraeth ar 5 Rhagfyr 2011 yn nodi pa gynlluniau o'r rhai gyflwynwyd fu yn llwyddiannus. Cyhoeddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i sicrhau amlen fuddsoddi gwerth mwy na £36 miliwn. Nodir mai'r cynlluniau canlynol fu'n llwyddiannus;

| CYNLLUN | COST Y CYNLLUN (Amcangyfrif) |
|---|---|
| Berwyn | £10.27m |
| Y Gader | £3.60m |
| Cynllun Addysg Arbennig a Chynllun Preswyl | £12.40m |
| Groeslon | £4.84m |
| Glan Cegin | £5.11m |
| **CYFANSWM** | **£36.22m** |

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Wedi'r cyhoeddiad cyn y Nadolig, cafwyd datganiad pellach gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (datganiad y Gweinidog - Ionawr 17 – Atodiad 1).

2.2 Fel eglurwyd ar adeg gwneud y cais, mae rhai cynlluniau gyflwynwyd gan y Cyngor ar raddfeydd gwahanol o barodrwydd. Yn wir, mae rhai o'r cynlluniau yn barod ers cyfnod gwneud y cais gwreiddiol am arian yn ôl yn Rhagfyr 2010.

2.3 Bydd y Bwrdd yn ymwybodol o benderfyniad y Cyngor Llawn i fwrw mlaen â chynlluniau ar gyfer ysgolion yn nalgylch y Berwyn (cyfarfod Cyngor Llawn 12/5/2011). Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod am ddatblygu Campws Gydol Oes yn y Bala a buddsoddi yn ysgolion gwledig ardal y Berwyn; Ysgolion Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac O.M. Edwards. Bydd Aelodau'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'r penderfyniad ar ddyfodol ysgolion rhan ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader (cyfarfod Cyngor Llawn 15/12/2011). Hyd yma, ni chyhoeddwyd y rhybuddion statudol ar gyfer cynigion perthnasol yn y dalgylchoedd hyn gan fod disgwyl eglurder ynglŷn a'r arian sydd wedi ei glustnodi drwy Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

2.4 I'r perwyl hwn cynhaliwyd y trafodaethau gyda'r Llywodraeth ynglŷn a'r modd gorau o symud ymlaen i gyhoeddi rhybuddion statudol ble mae penderfyniad gan y Cyngor i wneud hynny. Daeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau fod Awdurdodau Lleol eraill (fel Caerffili) mewn sefyllfa tebyg, a bellach ceir awgrym gan y Llywodraeth eu bod yn ystyried edrych i gyflymu ariannu rhai prosiectau (Atodiad 1).

2.5 Trafodwyd yr opsiwn y gallesid bwrw ymlaen â chynlluniau gan ddefnyddio arian y Cyngor gan ad-hawlio cyfran y Llywodraeth o'r arian yn ôl maes o law. Nodwyd gan Swyddogion y Llywodraeth y byddai proses i'w dilyn cyn rhyddhau elfen y Llywodraeth o'r arian, ond bod union fanylion y broses i'w chadarnhau. Fel rhan o'r broses bydd angen sicrhau fod rhaglen waith glir ar gyfer cynlluniau llwyddiannus y Sir.

2.6 Fel yn sefyllfa dalgylch Dolgellau, bydd gweithredu'r cynllun yn nalgylch y Berwyn yn digwydd yn raddol. Ymgynghorwyd i sefydlu'r Campws Dysgu Gydol Oes erbyn 2015, ac i ddatblygu Ysgol O.M. Edwards er mwyn derbyn disgyblion Ysgol y Parc erbyn 2012. Penderfynwyd llithro dyddiad cau Ysgol Y Parc tan 2013 gan y Bwrdd (26/7/2011) yn wyneb amserleniad ceisiadau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

2.7 Yn sgil y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru – cafwyd datganiad yn nodi fod arian wedi ei glustnodi ar gyfer gwireddu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dalgylch fel rhan o'r rhaglen gyllidol, a bod proses pellach i'w dilyn cyn byddai cyfran y Llywodraeth yn cael ei rhyddhau. Wrth gwrs, mae cost datblygu'r Campws Gydol Oes yn nhref y Bala yn sylweddol uwch (£8.1m) na chost datblygu ysgolion O.M. Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn (hyd at £1.3m), gyda swm pellach ar gyfer argyfwng neu materion annisgwyl (£850,000). Mae'r Bwrdd eisoes wedi trafod y manylion y cynlluniau hyn (14/12/2010) ac wedi penderfynu bwrw mlaen â gwelliannau traffig yn Ysgol O.M. Edwards (yn ei gyfarfod 26/7/2011).

2.8 Yn wyneb y ffaith bod yr adnoddau bellach yn ei le, ac fel cam cychwynnol, argymhellir symud ymlaen i sicrhau fod Ysgolion Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac O.M. Edwards yn cael eu huwchraddio gan ad-hawlio'r arian cyfatebol yn ôl yn unol ag arweiniad y Llywodraeth. Gwneir y cais hwn fel bod modd sicrhau'r adnoddau i fedru symud ymlaen â'r gwelliannau, a gwneud gwaith rhagbaratoi ar y cynlluniau hyn.

2.9 Yn sefyllfa sefydlu'r Ysgol Ardal Aml-Safle yn nwyrain dalgylch Y Gader ym Mrithdir a Dinas Mawddwy, mae pryder y byddai unrhyw oedi pellach yn creu ansicrwydd a phroblemau. Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiwyd pa mor fregus yw sefyllfa ysgolion Ieuan Gwynedd a Machreth o ran niferoedd (niferoedd presennol yw 16 yr un). Mae pryder gwirioneddol ynglŷn a sefyllfa'r ysgolion, a nodir yr angen i fwrw mlaen a'r penderfyniad wnaed gan y Cyngor.

2.10 Yn ystod cyfnod yr oediad gan Lywodraeth Cymru cyfeirir ato uchod – penderfynodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26/7/2011 neilltuo swm (Oddeutu £1.5miliwn) ar gyfer datblygu'r Ysgol Ardal Aml-Safle yn nwyrain Dolgellau. Yn y cyfamser wrth gwrs, daeth y cyfle i ddefnyddio'r arian yma fel modd o dynnu arian ychwanegol gan y Llywodraeth drwy Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Yn unol â phenderfyniadau sydd eisoes wedi eu gwneud felly, bwriedir symud ymlaen i ddatblygu safleoedd yr Ysgol Ardal, a chyhoeddi'r rhybuddion ar gyfer cynigion ysgolion dwyrain y Gader.

2.11 Atgoffir Aelodau fod cyllido drwy'r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn 50% o gyfeiriad y Llywodraeth a 50% gan y Cyngor. Yn sgil y trafodaethau gynhaliwyd, cafwyd datganiad gan y Llywodraeth yn nodi y byddai modd symud ymlaen â'r broses o ddefnyddio'r arian fuddsoddir i dynnu cyfraniad cyfatebol yn amodol ar gyflawni camau sydd eto i'w cadarnhau.

2.12 Mae canllawiau bras y Llywodraeth yn cynnig fframwaith amlinellol mewn perthynas ynghlwm â'r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, ac mae'r Cyngor nawr yn disgwyl am wybodaeth fwy manwl. Gellir dadlau bod risg bychan yn sgil hyn, ond ein teimlad yw ei bod yn ddoeth symud ymlaen i wireddu penderfyniadau mae'r Cyngor eisoes wedi eu gwneud. O bwyso a mesur y risgiau o weithredu, neu o beidio gweithredu, argymhellir yr isod.

2.13 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn sylweddoli fod angen symud ymlaen â gweddill o'r cynlluniau fu'n llwyddiannus, ac yn cydnabod fod angen symud ymlaen gyda chynlluniau Gydol Oes yn nhref y Bala, gwelliannau i ysgol gynradd Dolgellau, Ysgol Hafod Lon newydd, ardal Y Groeslon a Glan Cegin. Bydd angen llunio rhaglen waith

gyda cherrig milltir clir ar gyfer gweddill o'r cynlluniau hyn sydd yn destun arian o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Cyhoeddi'r rhybuddion statudol priodol yn unol a phenderfyniadau'r Cyngor ac yn amodol ar ganlyniad y broses statudol symud ymlaen â'r gwariant priodol yn ysgolion gwledig dalgylch y Berwyn (ysgolion O.M. Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn) ac yn ardal wledig dwyrain Dolgellau (safle ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy).

3.2 Llunio rhaglen waith a cherrig milltir clir ar gyfer gweddill cynlluniau'r Sir (Campws Gydol Oes yn nhref y Bala, gwelliannau i ysgol gynradd Dolgellau, Ysgol Hafod Lon newydd, ardal Groeslon a Glancegin) sydd yn destun arian o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Barn Swyddogion Statudol:**

1. Prif Weithredwr

   "Nawr, gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau argaeledd adnoddau ar gyfer y prosiect, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i hyrwyddo penderfyniad y Cyngor i gymeryd y camau cyntaf i sicrhau cynaladwyedd addysg yn nalgylch y Berwyn".

2. Swyddog Monitro

   "Gwnaethpwyd penderfyniad gwreiddiol y Cyngor i gyhoeddi rhybuddion statudol ym Mis Mai wedi proses ymgynghori, sydd yn ofyn statudol. Roedd gweithredu y penderfyniad yma yn ddarostyngedig i sicrhau yr adnoddau cyfalaf priodol. Mae'r arweiniad ar y broses trefniadaeth, yn benodol yn y Cylchlythyr ar Drefniadaeth Ysgolion, yn cyplysu argaeledd adnoddau perthnasol a chyhoeddi rhybuddion statudol penodol. Mae'r argymhelliad yn cyfarch y gofyn yma o safbwynt cyhoeddi y rhybuddion ynglŷn a'r ysgolion penodol a nodi'r. Rhaid nodi hefyd y gall oediad gweithredu y penderfyniad effeithio ar y risgiau cyfreithiol sydd ynglŷn a chwblhau y broses yma".

3. Prif Swyddog Cyllid

   "Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfeisio a sefydlu "model 5 achos" fel trefn ar gyfer cymeradwyo a dosbarthu grantiau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, sy'n golygu cryn waith paratoi achosion busnes ac oedi cyn derbyn cymeradwyaeth swyddogol am y grantiau. Ym mharagraffau 2.11 a 2.12, mae adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn amlygu'r risg o symud ymlaen i wario cyfran o arian cyfatebol y Cyngor (£1.3m ar gyfer datblygu ysgolion O.M. Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn, ynghyd ag oddeutu £1.5m ar gyfer datblygu'r Ysgol Ardal Aml-Safle yn nwyrain Dolgellau) cyn derbyn cadarnhad swyddogol o gyfraniad Llywodraeth Cymru ac amodau'r grant perthnasol.

   Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i'w "model 5 achos", ond nid yw'n hysbys eto beth fydd yr amodau gwario perthnasol. Deallaf derbyniwyd gair swyddog byddai gwariant buan gan y Cyngor yn gymwys i briodi (50%) er mwyn hawlio cyfraniad grant dilynol, ond rydym heb dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o hynny. Bydd angen i aelodau'r Bwrdd bwyso a mesur y risgiau o weithredu'n fuan (posibilrwydd, ond tebygolrwydd isel, o fethu hawlio £1.4m o grant) yn erbyn y risgiau wrth oedi a'r buddion o symud ymlaen.

   Fodd bynnag, mae un peth yn amlwg eisoes o drafod y "model 5 achos" gyda Llywodraeth Cymru, sef oni bai bod y Cyngor yn dechrau ar y broses o ad-drefnu'r ysgolion perthnasol, y sicrwydd yw na fydd y grant Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gael o gwbl."

## ATODIAD 1

Datganiad Y Gweinidog Addysg a Sgiliau : Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain 17/1/2012

Ffynhonnell : http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly rop.htm?act=dis&id=229547&ds=1%2F2012#06

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):**

Mae fy natganiad heddiw yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y cynnydd a wnaed, a'n hymrwymiad parhaus yn unol â'n rhaglen lywodraethu, i ariannu adeiladau o ansawdd uchel a darpariaeth TGCh drwy'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Ym mis Gorffennaf y llynedd, cyhoeddais ddatganiad ar y cynnydd diweddaraf ar y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a oedd, ar y pryd, yn adlewyrchu'r penderfyniadau anodd a oedd yn angenrheidiol i symud y rhaglen yn ei blaen yn sgîl y gostyngiad sylweddol mewn cyllid cyfalaf a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf, mae pob prosiect sydd wedi ei gymeradwyo gan fy adran o dan gyfnod trosiannol y rhaglen yn cael ei gyflawni ac yn mynd i gael ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y rhaglen hon, fel rhagflaenydd y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn ymblethu i'r rhaglen newydd, sydd wedi'i chynllunio i ddechrau yn y flwyddyn ariannol 2014-15.

Yn dilyn fy natganiad ym mis Gorffennaf 2011, gofynnwyd i awdurdodau lleol adolygu ac ail-gyflwyno eu blaenraglenni amlinellol o fuddsoddiad sy'n sail i'w rhaglenni amlinellol strategol, a hynny ar sail meini prawf o flaenoriaethau mwy llym, er enghraifft, rhesymoli ystâd yr ysgol gan gynnwys gostyngiad mewn lleoedd gwag dros ben, ynghyd â chost-effeithiolrwydd cyflawni'r rhaglenni ac alinio â'n rhaglen drawsnewid i bob oed. Hefyd, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru y byddai cyfradd uchafswm y grant cymorth yn cael ei osod ar 50%. Fel y cyhoeddais mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, rwyf yn falch o ddweud bod awdurdodau lleol wedi ateb yr her honno a'u bod wedi ailasesu a blaenoriaethu eu cynigion buddsoddi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, a chyfarfu swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau â phob awdurdod cyn iddynt gyflwyno'u rhaglenni buddsoddi. Mae rhaglenni amlinellol o fuddsoddiad yr awdurdodau yn ceisio mynd i'r afael nid yn unig â chyflwr gwael a lleoedd dros ben ar ystâd yr ysgol, ond hefyd unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, addysg cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth addysg ffydd.

Mae'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn tanlinellu'r bartneriaeth waith agos â'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyfarwyddwyr esgobaethau o'r sector gwirfoddol a gynorthwyir a Colegau Cymru. Y bartneriaeth waith hon oedd sail y rhaglen gyfalaf sydd wedi'i chytuno arni sy'n sicrhau y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cael cymorth grant gan Lywodraeth Cymru o tua £700 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o saith mlynedd, gan ddechrau yn 2014-15. Wedi dweud hynny, lle bo cyllid yn caniatáu, mae'n fwriad gennym gychwyn rhai prosiectau cyfalaf unigol yn gynharach. Bydd y buddsoddiad hwn yn adeiladu ar y £415 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan

Lywodraeth Cymru o'r rhaglen ariannu drosiannol.

Rhoddwyd sicrwydd i awdurdodau o raglen gyfalaf tymor hir, ac mae hynny'n hanfodol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r buddsoddiad mewn ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011 hefyd yn anfon neges gadarnhaol i'r diwydiant adeiladu fod y Llywodraeth yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, a bydd buddsoddiad yn ein hysgolion yn darparu cefnogaeth y mae ei hangen yn fawr ar economi Cymru.

Bydd y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn annog awdurdodau lleol i sicrhau buddiannau cymunedol, megis cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth, drwy fabwysiadu dulliau caffael sy'n dod â buddiannau cymunedol, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, cyfleoedd i gadwyni cyflenwi leol, yn enwedig i sefydliadau llai, ac effeithiau amgylcheddol cadarnhaol.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog cyllid ar y mater o sicrhau cyfalaf ychwanegol, gan gynnwys datblygu ffynonellau eraill o arian. Mae cydweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r prosiectau a'r rhaglenni strategol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar economi Cymru o ran cyflogaeth uniongyrchol ac addysgu ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf o'n buddsoddiad o'r bunt Gymreig, oherwydd, erbyn 2014-15, bydd cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru bron i 50% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2009-10. Byddwn yn edrych i archwilio dyluniadau mwy effeithiol o adeiladau ysgol er mwyn gwneud i'r buddsoddiad weithio'n galetach, ac mae fy swyddogion eisoes yn cyfarfod â'r prif sefydliadau pensaernïol yng Nghymru a thu hwnt er mwyn edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r cyhoeddiad o bron i £1.4 biliwn yn gyfraniad pwysig at y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, gan nodi a blaenoriaethu ein buddsoddiad yn yr ystâd ysgolion drwy'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod pa mor bell rydym wedi dod ers lansio'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ym mis Mawrth 2010. Mae sicrhau buddsoddiad cyfalaf yn y cyfnod economaidd anodd hwn yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer canlyniadau addysg gwell, ond hefyd er mwyn gwella economi ein cymunedau.

Rwyf am i ysgolion yng Nghymru fod yn fannau sy'n ysbrydoli ein pobl ifanc, a all gynnwys technoleg yr unfed ganrif ar hugain, ac y gellir eu haddasu er mwyn cwrdd ag anghenion newidiol dysgwyr mewn economi wybodaeth sy'n datblygu'n gyflym. Mae hefyd angen i ysgolion fod yn adnoddau ar gyfer eu cymunedau lleol, ac mae angen iddynt weithio'n ddi-dor ac yn synhwyrol â darparwyr addysg a hyfforddiant.

Mae fy natganiad yn tanlinellu ein hymrwymiad, fel Llywodraeth Cymru, i wella bywydau pobl yng Nghymru. Rwyf yn falch i allu ehangu ymhellach ar y datganiad a wnaethom ym mis Rhagfyr.